

Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C
17 Hydref 2013, S4C, Llanisien, Caerdydd

Cyfarfod Rhif 370

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)	
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)	
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)	
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)	
	Glenda Jones	(Aelod o'r Awdurdod)	
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)	
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)	
	Rheon Tomos	(Aelod o'r Awdurdod)	
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)	
	Garffild Lloyd Lewis	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)	
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)	
	Kathryn Morris	(Cyfarwyddwr Cyllid)	
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)	
	Huw Marshall	(Rheolwr Digidol)	(Eitem 7 yn unig)
	Carys Evans	(Pennaeth Ymchwil)	(Eitem 8 a 11 yn unig)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)	
	Sarah-Jane Pritchard	(Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)	

Sylwadau agoriadol

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

1. Datganiad o ddiddordeb

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. Cofnodion cyfarfod 369 (19 Medi 2013) a materion yn codi

2.1 Cofnodion cyfarfod 369

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 369.

Cymeradwydd yr Awdurdod y cofnodion.

2.2 Materion yn codi

Nodwyd y canlynol:

Y Drefn Gomisiynu

[**Crynodeb:** Eglurwyd y sefyllfa ddiweddaraf gyda'r newidiadau i'r drefn gomisiynu a gyhoeddir yn fuan.]

3. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriwyd yn benodol at y canlynol.

3.1 **Cynllunio Strategol**

Nodwyd bod tîm “traws-S4C” wedi ei sefydlu er mwyn cynllunio strategaeth S4C ar gyfer ceisio sicrhau ariannu hir dymor.

3.2 Nodwyd bod Sue Owen wedi ei phenodi'n Ysgrifennydd Parhaol y DCMS. Awgrymwyd y dylid ysgrifennu ati i geisio cyfarfod.

4. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

4.1 Cyflwynodd IHJ ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

4.2 **Amcanion Corfforaethol**

Cyflwynodd IHJ yr amcanion corfforaethol drafft hyd at ddiwedd 2014. Nodwyd bod swyddogion wedi dilyn yr un broses â'r llynedd wrth lunio'r amcanion. Bydd swyddogion yn cyflwyno'r amcanion corfforaethol i'w hadrannau cyn trafod amcanion adrannol ac amcanion gwaith ar gyfer pob aelod o staff. Bydd amcanion staff yn cael eu defnyddio fel rhan o'r drefn newydd ar gyfer gwerthuso staff a gyflwynwyd y llynedd.

Cafwyd trafodaeth am yr amcanion drafft, gan gynnwys trefn yr amcanion, y pwyslais i'w roi ar Gynnwys, geiriad nifer o'r amcanion a'r berthynas rhwng swyddogaethau'r Awdurdod a swyddogion S4C. Penderfynwyd y dylid nodi'r berthynas rhwng yr Awdurdod a'r Tîm Rheoli yn rhagarweiniad y ddogfen, rhoi blaenoriaeth i'r amcanion Cynnwys o fewn y ddogfen, cyfeirio at adrodd am gyflawniad yr amcanion a pherthynas yr amcanion gyda'r mesuriadau perfformiad, a nodi fod Partneriaethau'n cyfrannu at y broses o sicrhau ariannu S4C yn y dyfodol.

[**Crynodeb:** Trafodwyd a ddylid cynnwys targedau penodol ar gyfer y gweithgareddau masnachol.]

4.3 **Adleoli**

[**Crynodeb:** Nodwyd penodiad Rheolwr Prosiect ar gyfer yr Adleoli.]

4.4 **Cynllun 5 mlynedd blynyddoedd ffiscal**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd KM fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun 5 mlynedd.]

4.5 **Pobol y Cwm**

[**Crynodeb:** Rhoddodd IHJ ddiweddariad ar y trafodaethau parthed omnibws Pobol y Cwm. Anelir at gyflwyno'r cynllun terfynol i'r Pwyllgor Cynnwys ym mis Tachwedd.]

5. **Proses Gwynion ddiwygiedig**

Cyflwynodd PW ddrafft o'r broses gwynion ddiwygiedig. Roedd y broses ddrafft yn seiliedig ar drafodaethau ac argymhellion y Pwyllgor Cwynion er mwyn ceisio creu

un broses syml ar gyfer cyflwyno cwynion i S4C a chanllawiau mewnol ar gyfer staff er mwyn sicrhau cysondeb wrth ddelio â chwynion.

[**Crynodeb:** Penderfynwyd y byddai swyddogion yn cyflwyno fersiwn ddiwygiedig o'r broses cwynion i'r Awdurdod ystyried yn ei gyfarfod nesaf.]

6. **Cymeradwyo Polisi Darllediadau Gwleidyddol diwygiedig**

Cyflwynodd PW y polisi darllediadau gwleidyddol diwygiedig drafft. Nodwyd mai'r prif newid i'r polisi yw dileu'r cysylltiad rhwng darllediadau gwleidyddol a digwyddiadau gwleidyddol penodol a newid y drefn i gynnig darllediadau i'r pleidiau gwleidyddol perthnasol yng Nghymru ar batrwm 'tymhorol'. Nodwyd y byddai'r newid yn cyd-fynd gyda pholisi Ofcom a'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill. Cymeradwywyd y polisi diwygiedig a phenderfynwyd cyhoeddi'r polisi newydd ar wefan Cynhyrchu S4C.

7. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd DRh ei adroddiad ysgrifenedig ac yna cafwyd cyflwyniad cynhwysfawr gan HM am ddatblygiadau yn y maes Digidol gan gynnwys y cynlluniau ar gyfer wefan S4C.]

8. **Cyflwyniad Ymchwil Chwarter 3 ac Adroddiad Ymchwil Misol**

8.1 [**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am ganfyddiadau ymchwil chwarter 3 gan nodi'r newidiadau i banel BARB, y cynnydd yn sesiynau gwyllo Clic a'r anghysonderau rhwng sgoriau AI paneli S4C a'r BBC.]

8.2 Nodwyd yr Adroddiad Ymchwil Misol.

9. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu**

Cyflwynodd GLL ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriodd at y materion canlynol:

9.1 [**Crynodeb:** Nodwyd bod cam nesaf y prosiect adleoli ar waith.]

9.2 Cynhelir Noson Gwylwyr nesaf S4C yn ardal Caerffili ym mis Tachwedd.

9.3 Nodwyd bod yr ymgyrch ysgolion ar daith ar hyn o bryd gyda nifer o wynebau cyfarwydd S4C yn ymweld ag wyth ysgol uwchradd i drafod pynciau materion cyfoes megis bwlio ar-lein gyda phobl ifanc. Bydd y prosiect yn gorffen gyda thrafodaeth ar gyfer pobl ifanc yn siambr y Cynulliad.

10. **Adroddiad Ariannol**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd KM yr adroddiad ariannol gan gyfeirio at y cynlluniau ar gyfer Lambourne Crescent a chyflwyno esboniad o'r llif arian rhwng y DCMS ac S4C.]

11. **Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys (a gynhaliwyd ar 30 Medi)**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd AE ei adroddiad o gyfarfod arbennig y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd er mwyn ystyried asesiad perfformiad gwasanaethau S4C ar gyfer hanner cyntaf 2013, sef yr adroddiad interim drafft. Y bwriad oedd cyflwyno asesiad ansoddol o'r gwasanaeth yn ogystal â chyflwyno gwybodaeth am berfformiad y gwasanaeth yn erbyn targedau'r Awdurdod. Yn dilyn awgrymiadau gan yr aelodau

cymeradwywyd yr adroddiad interim ar gyfer Ionawr - Medi 2013 i'w gyflwyno i Bwyllgor Cynulleidfaeod a Pherfformiad Ymddiriedolaeth y BBC ym mis Tachwedd.]

12. **Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg (a gynhaliwyd ar 19 Medi)**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd RhT ei adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg. Cafwyd trafodaeth am y broses ar gyfer penodi archwilwyr allanol. Penderfynwyd y dylai'r Pwyllgor ystyried y drefn dendro ac ymarfer da cyn cyhoeddi'r tendr nesaf yn 2014.]

13. **Adroddiad o'r Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth (a gynhaliwyd ar 18 Medi)**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd MWJ ei hadroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth.]

14. **Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol (a gynhaliwyd ar 16 Hydref)**

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Bwrdd Masnachol ar 16 Hydref. Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Awdurdod yn ei gyfarfod nesaf.

15. **Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth a Gwifren Gwylwyr**

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd yr adroddiad cwynion.]

Nodwyd adroddiad y Gwifren Gwylwyr.

16. **Unrhyw fater arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

17. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 14 Tachwedd 2013 yng Nghaerdydd.